

# POBL IFANC A CHYLLYLL | FAINT 'DA CHI'N EI WYBOD?

CYNGOR I RIENI A GOFALWYR

## MAE EFFEITHIAU TROSEDDAU CYLLYLL YN TORRI MWY NA'R CROEN

## YR HYN SY'N DROSEDDAU CYLLYLL

- Cario cyllell mewn lle cyhoeddus
- Prynu cyllell, gan gynnwys ar-lein, os 'da chi o dan 18 oed
- Bygwth rhywun efo cyllell
- Cario cyllell sydd wedi'i wahardd
- Bod mewn meddiant cyllell anghyfreithlon yn y cartref
- Digwyddiad lle gafodd y dioddefwr ei drywanu efo cyllell
- Lladrad neu fyrgleriaeth, lle 'roedd y lladron yn cario cyllell fel arf

## ARWYDDION

- 'Da chi wedi sylwi bod unrhyw gyllyll ar goll o'ch cegin chi?
- Neu wedi ffeindio rhai nad ydych chi'n eu adnabod yn eich cartref?
- Ydy'ch plentyn chi'n ymddwyn yn gyfrinachol ynglŷn â lle maen nhw, be' maen nhw'n ei wneud, pwy maen nhw'n eu gweld?
- Wnawn nhw adael i chi edrych yn eu bagiau neu'u pocedi?
- Oes ofn ganddyn nhw neu ydyn nhw'n anfodlon mynd i lefydd penodol?
- Ydyn nhw'n ymddangos fel bod ofn arnyn nhw, yn ddistaw neu'n flin yn fwy nag arfer?

90934.

# BETH YDY MENTER AR Y CYD?

Os ydy rhywun wedi'i trywanu'n angheuol, mi allai rhywun gael eu canfod yn euog o lofruddiaeth yr unigolyn er mai nid nhw gyflawnodd y trywanu. Mi elwir hyn yn **fenter ar y cyd**.

**Mae'n golygu gallan nhw eu ystyried fel eu bod nhw'n gyfrifol am farwolaeth rhywun**, oherwydd eu bod yn rhan o'r sefyllfa oedd wedi arwain at y digwyddiad, neu'n rhan ohono heb geisio'i rwystro rhag digwydd.

Gallai sefyllfaoedd o'r fath gynnwys:

- Os oedden nhw'n rhan o grŵp, ac mae aelod o'r grŵp yn lladd rhywun drwy ddefnyddio cyllell.
- 'Roedden nhw'n helpu gweithrediadau'r ymosodwr mewn rhyw ffordd. Gallai hyn fod ar lafar drwy eu hannog, neu'n gorfforol drwy eu presenoldeb.
- 'Roedden nhw'n gwybod fod yr ymosodwr yn mynd i fod yn dreisgar tuag at y dioddefwr, ac ni wnaethon nhw unrhyw beth i'w rwystro.

# O BLE GA'I HELP OS DWI'N POENI BOD FY MHLENTYN YN YMWNEUD Â THROSEDDAU CYLLYLL?

Os 'da chi'n rhiant, yn warcheidwad neu'n ofalwr, mae'n amlwg yn peri pryder os 'da chi'n darganfod bod eich plentyn yn cario cyllell, neu'n ymwneud â phobl sydd yn cario cyllell. Mae'n bwysig eich bod yn siarad efo'ch plentyn ac yn parhau cyfathrebu'n agored efo nhw.

Siaradwch efo nhw ynglŷn â chanlyniadau difrifol cario cyllell, a ceisiwch ddarganfod pam eu bod nhw'n cario cyllell.

Efallai ei fod oherwydd nad ydyn nhw'n teimlo'n saff, neu oherwydd eu bod eu ffrindiau nhw'n gwneud. Mae'n bwysig gwybod y rheswm cyn mynd i'r afael â fo.

**Mae gan Heddlu Gogledd Cymru finiau amnest lle gallwch gael gwared ar arfau ymosodol yn ddiogel, ar unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn.**

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

**Angen help? Cysylltwch efo:**

**Llinell gymorth yr NSPCC**

**0808 800 5000**

neu ewch ar **www.fearless.org**

**Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU**